Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 36 Haf 2016



**Dy fywyd *mentra* arno**

*Annwyl ffrindiau,*

Mae'r gair 'risg' wedi codi'i ben fwy nag unwaith yn ystod yr wythnosau diwethaf. Clywsom rai pobl yn dweud y byddai'n 'risg' enfawr yn economaidd i adael yr Undeb Ewropeaidd, ond eraill yn barnu am resymau gwahanol y byddai'n 'risg' i barhau yn aelod ohono. Roedd hi'n dipyn o 'risg' hefyd i ddewis Joe Ledley yn rhan o garfan tîm pêl-droed Cymru ar gyfer yr Ewros ac yntau ond ychydig wythnosau ynghynt wedi torri asgwrn yn ei goes. Wel, erbyn hyn rydym yn gwybod canlyniad y refferendwm a sut hwyl a gafodd Joe Ledley a thîm Cymru yn Ffrainc. Oedd y 'risg' yn werth ei chymryd?

Mae yna adegau mewn bywyd pan elwir arnom i gyd i gymryd rhywfaint o risg. Er enghraifft, wrth feithrin perthynas â rhywun pan fyddwn yn ifanc, priodi, dewis gyrfa, prynu tŷ, newid swydd, cychwyn busnes. Oes, mae gan bawb ohonom ei ddyheadau a'i freuddwydion sy'n golygu bod yn rhaid mentro a chymryd naid mewn ffydd. Ond dyna cyn belled ag yr awn. Wedi'r cyfan does neb eisiau llamu i'r tywyllwch a cholli rheolaeth ar ei fywyd. Gwell dal gafael ar bethau fel ag y maent, yn hytrach na mentro ar dir a all fod yn ansicr.

Gwahanol iawn oedd hi yn hanes pysgotwyr tlawd a di-ddysg Galilea a adawodd eu rhwydau pysgota yn ddiymdroi er mwyn dilyn Iesu. Roeddent hwy yn barod i ymateb i'r alwad sy'n para yr un ddoe a heddiw: 'Os wyt am fy nerbyn a'm dilyn i, a gwneud yn union yr hyn yr wyf yn ei ddweud wrthyt, cod dy groes bob dydd, a chanlyn fi.' Wrth ystyried hanes pobl Dduw ar hyd y canrifoedd gwelwn mai cymunedau o *risk takers* oeddent i gyd. Roedd hi'n fenter fawr i Abram a'i deulu adael Haran a chychwyn i wlad Canaan ar alwad Duw (Genesis 12:5); felly hefyd pan safodd Moses ac Aaron o flaen Pharo gan ddweud wrtho fod Duw yn ei orchymyn i ollwng ei bobl yn rhydd (Exodus 5:1). Menter fawr i Nicodemus oedd dod at Iesu er mwyn ymddiddan ag ef liw nos gan y gallasai hynny fod wedi peryglu ei enw da a'i statws mewn cymdeithas (Ioan 3:2). Yn yr Eglwys Fore, disgrifiwyd Paul a Barnabas gan Gyngor yr apostolion a'r henuriaid yn Jerwsalem fel dynion a oedd wedi cyflwyno'u bywydau dros Iesu (Actau 15:26). Diau bod unrhyw un sy'n barod i gyflwyno'i fywyd dros unrhyw Achos yn rhwym o gymryd risgs.

O ddarllen y Testament Newydd cawn yr argraff ein bod yn dilyn hynt a helynt pobl nad oedd yn ofni rhoi cynnig ar rywbeth newydd, gyda'u ffydd yng Nghrist Iesu yn eu harwain i fentro bob cam ymlaen. Yn wir, roedd bywyd yr Apostol Paul yn un risg ar ôl y llall. Meddai un tro: 'Ac yn awr dyma fi, dan orfodaeth yr Ysbryd, ar fy ffordd i Jerwsalem, heb wybod beth a ddigwydd imi yno, ond bod yr Ysbryd Glân o dref i dref yn tystiolaethu imi fod rhwymau a gorthrymderau yn fy aros.' (Actau 20:22, 23).

Go brin y buasai'n bosibl canlyn Iesu yn y dyddiau cynnar hynny heb gofleidio'r risg oedd ymhlyg mewn naid o'r fath. Yn wir, pan fo arwr neu arwres yn camu ar lwyfan hanes yr eglwys, bydd yn gwneud hynny am ei fod yn barod i fentro; bydd yn barod i roi cynnig ar rywbeth newydd, i ymwrthod â thraddodiad ac i droedio tir newydd. Y Bedyddiwr William Carey a ddywedodd, 'Expect great things from God; attempt great things for God.' Nid yw cymryd risgs yn ddewis opsiynol i'r Cristion – mae'n rhan annatod o'i fywyd. Meddai André Gide, yr awdur a'r llenor Ffrengig, 'Ni all dyn ddarganfod cefnforoedd newydd oni bai ei fod yn ddigon dewr a gwrol i adael y lan o'i ôl.'

Ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, bu dyn yn cerdded ein daear a oedd yn fwy na dyn; ef oedd unig Fab Duw. Anturiodd hwn ei einioes hyd at angau gan ddioddef y 'felltith ar Galfari fryn'. Rhoddodd addewid i'w ddilynwyr y byddai unrhyw un a gredai ynddo fel Meseia Duw yn sicr o brofi dylanwadau'r Ysbryd ar ei fywyd ac y câi ei wneud yn berson newydd yng Nghrist. A wnawn ninnau gymryd rhywfaint o risg er mwyn dangos fod Iesu'n iawn?

O f'enaid, gwêl addasrwydd
   y person dwyfol hwn,
dy fywyd <u>mentra</u> arno
   a bwrw arno'th bwn;
mae'n ddyn i gydymdeimlo
   â'th holl wendidau i gyd,
mae'n Dduw i gario'r orsedd
   ar ddiafol, cnawd a byd.

Ann Griffiths

Yr eiddoch yng Nghrist,

*Wyn Morris (Bugail)*

[Llun y clawr: Thinkstock.com]

# Tudalen y Plant

***Byw yn Ffordd Duw (o Chwilota'r Beibl)***



Dywedodd Iesu ei bod yn bwysig inni helpu eraill bob amser, ac wrth helpu eraill ein bod yn gweithio drosto fe: 'Credwch chi fi, pan wnaethoch chi helpu'r person lleiaf pwysig sy'n perthyn i mi, gwnaethoch chi fy helpu i.' (Mathew 25:40)

Darllenwch yr hanes yn Efengyl Mathew, pennod 25, a thynnwch linell o'r golofn chwith i'r golofn dde i orffen y brawddegau'n gywir:

| | |
|---|---|
| Pan oedd syched arna i | fe roddoch chi fwyd i mi. |
| Pan oeddwn i yn y carchar | fe ges i groeso gennych. |
| Pan nad oeddwn i'n adnabod neb | fe ges i ddiod gennych. |
| Pan oeddwn i'n sâl | fe ddaethoch i 'ngweld. |
| Pan oeddwn i eisiau bwyd | fe roddoch chi ddillad i mi. |
| Pan oeddwn i'n oer | fe ofaloch chi amdana i. |

*Gweddi*: Annwyl Arglwydd, helpa fi i sylwi pan mae eraill angen help, ac i fod yn garedig tuag atynt – sdim ots pwy ydyn nhw. Amen.

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Gorffennaf**.

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Llongyfarchiadau i Cari Elin Rees, Ysgol Sul Capel Seion, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c***

| | |
|---|---|
| 3 Gorffennaf | Pleidlais yn Eglwysi'r Ofalaeth ynghylch galw gweinidog ac i ethol Pwyllgor Bugeiliol |
| 10 Gorffennaf | Oedfa Haf yr Ofalaeth<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel Pen-llwyn am 10 o'r gloch |
| 25 Medi | Sul Menter Gobaith |
| 26 Medi | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 pm |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn: www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

Wrth i'r rhifyn hwn fynd i'r wasg, daeth y newyddion trist am farwolaeth drasig yr Aelod Seneddol Jo Cox. Bu'n gweithio i Oxfam am ddeng mlynedd ac roedd yn ymgyrchydd diflino dros ffoaduriaid Syria, dros famau a'u babanod, ac o blaid heddwch. Fe'i disgrifiwyd gan y Parch. Paul Knight, Birstall, fel enghraifft o Samariad Trugarog yr 21ain ganrif. Boed ei bywyd yn ysbrydoliaeth i ninnau i gyd.



## *Gweddi Haf*

Arglwydd hafau bywyd –
llawenydd, llawnder a llwyddiant,
rhyddid, rhyfeddod a chân –
diolch am gael Dy adnabod
fel Creawdwr gwyrth ein bod,
am gael gweld a gwybod
am lecynnau hardd
gardd Dy gread.

Arglwydd cymylau'r hafau gwael,
rho i ni Ysbryd Dy amynedd tawel
i wynebu a gorchfygu
cyfnodau diflas bywyd,
munudau blin ein mynd a'n dod:
siom mewn pobl,
surni mewn methiant;
rho i ni'r gras i goncro
y casineb all gasglu'n friw,
yr eiddigedd sy'n lladd bendithion,
y rhagfarn sy'n codi muriau,
y culni sy'n crebachu gorwelion,
y beirniadu sy'n gwenwyno cyd-fyw
a'r oerni mewnol
all ddistewi pob cân.

Arglwydd yr hafau a'r cymylau,
gwna ni, drwy Dy Ysbryd,
yn ddisgylion ffyddlon
i'r Iesu cyson, cadarn, didymhorau.

*Pryderi Llwyd Jones* (dyfynnwyd yn *Adlais*, Aled Lewis Evans, Cyhoeddiadau'r Gair, 2007, t. 77)

## Ethol Pwyllgor Bugeiliol yng Ngofalaeth y Garn

Derbyniwyd caniatâd y Gymdeithasfa yn y De yn ei chyfarfod yn Bethani, Rhydaman, 10–11 Mai eleni, i'r Ofalaeth symud ymlaen i alw gweinidog i ddilyn y Parch. Wyn Rhys Morris, sy'n ymddeol ddiwedd mis Mawrth nesaf.

Mae'n rhaid cadarnhau i ddechrau bod yr eglwysi i gyd am barhau yn yr ofalaeth, oherwydd nid yw hyn wedi digwydd yn ffurfiol ym mhob un ohonynt. Yna gellir symud ymlaen i ethol aelodau o'r llawr i fod ar y Pwyllgor Bugeiliol, h.y. unrhyw un nad yw'n flaenor yn yr eglwys.

Felly, rhaid gofyn i'r gynulleidfa i ddechrau:

'A ydych o blaid galw gweinidog i fugeilio'r eglwys hon?
Os ydych, dangoswch hynny trwy godi llaw.'

Yna, os ydynt yn cydsynio, gellir symud ymlaen at y bleidlais ddirgel: y rhai uchaf ar y rhestr i weithredu ar y Pwyllgor. Bydd papur plaen yn addas ar gyfer hyn.

Dau i'w hethol yn achos y Garn, Rehoboth, Pen-llwyn, Seion, y Babell a Nasareth, ac un o'r llawr o Madog gan fod ganddynt 3 blaenor eisoes.

Yr eglwysi i bleidleisio ar 3 Gorffennaf, ar wahân i'r Babell a fydd yn gwneud hynny am 2 o'r gloch ar 26 Mehefin. Dyma'r trefniadau:

Y Garn a Phen-llwyn am 10 o'r gloch;

Nasareth, Madog a Seion am 2 o'r gloch, a Rehoboth am 5 o'r gloch.

Gan fod y Parch. Nicholas Bee yn pregethu yn Seion y pnawn hwnnw, gall ef weithredu yno.

Diolch i gyfeillion Capel y Morfa am eu parodrwydd i gynorthwyo yn y gwaith hwn. Felly, fe fydd blaenoriaid o Gapel y Morfa yn bresennol yn yr eglwysi eraill i ofyn y cwestiwn cychwynnol (gweler uchod) ac yna, os yw'r gynulleidfa'n cytuno i symud ymlaen, i arolygu'r bleidlais ddirgel.

Felly, aelodau'r Pwyllgor Bugeiliol fydd holl flaenoriaid yr eglwysi ynghyd â'r rhai a fydd wedi eu hethol o'r llawr yn y bleidlais a ddisgrifiwyd uchod.

Yn ogystal, bydd yr Henaduriaeth yn dewis dau o'r tu allan i'r Ofalaeth i weithredu ar ei rhan, ond ni fydd ganddynt bleidlais yn y Pwyllgor.

*John Tudno Williams, Cadeirydd Pwyllgor Bywyd a Thystiolaeth yr Henaduriaeth*

## *Wythnos y Ffoaduriaid*

Ar drothwy Wythnos y Ffoaduriaid, sef 20–26 Mehefin, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ar thema 'Ffoaduriaid' fore Sul, 19 Mehefin, yng Nghapel y Garn. Roedd y gwasanaeth dan arweiniad y Barchedig Judith Morris, a fu ar ymweliad ddiwedd Mai â rhai o wersylloedd y ffoaduriaid yng Ngwlad Groeg fel aelod o ddirprwyaeth ar ran Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon.



Cyflwynodd Judith Megan Turner, a oedd wedi bod am gyfnod o bythefnos yn gynharach eleni yn helpu ffoaduriaid, a oedd yn croesi – llawer ohonynt mewn cychod simsan liw nos – o Syria i Ynys Lesbos, i gyrraedd y lan yn ddiogel. Myfyrwraig yn ei hail flwyddyn ym Mhrifysgol Abertawe yw Megan, ond mae wedi gweithio fel achubwraig bywyd yn ardal Aberystwyth yn ystod sawl haf. Penderfynodd ddefnyddio'i phrofiad o helpu pobl ar y môr a mynd allan i Wlad Groeg i roi cymorth i'r trueiniaid hyn. Trwy gyfrwng sgwrs a lluniau, rhannodd Megan ei phrofiadau a'i theimladau am yr amgylchiadau a welodd ar Ynys Lesbos, gan ein hannog i gyd i wneud yr hyn a allwn i helpu'r bobl hyn – drwy gyfrannu arian neu nwyddau, er enghraifft.

Gwnaed casgliad tuag at y gwaith o gynorthwyo'r ffoaduriaid, a chasglwyd swm o £110. Diolch i bawb am eu haelioni.



*Llond cwch o ffoaduriaid yn cyrraedd liw nos, a Megan a'r criw yn barod i helpu*





*Judith a’r cynrychiolwyr eraill aeth i weld gwersylloedd y ffoaduriaid*

Dyma rai o argraffiadau Judith o’i phrofiadau yn ystod ei hymweliad:

*Ynys Samos*: Nid oedd y gwersyll yn lle deniadol, ac er mai’r bwriad oedd rhoi llety i’r ffoaduriaid am gyfnod byr iawn o amser, deallaf eu bod yn gorfod aros yno am gyfnod llawer hirach, oherwydd oedi wrth brosesu eu ceisiadau. Gwelsom staff meddygol a gweithwyr cymorth elusennol yn y gwersyll, ond un o’r heriau mwyaf yr oedd y ffoaduriaid yn ei hwynebu bob dydd, ar wahân i orfod aros i’w gwaith papur gael ei gwblhau, oedd bod heb ddim i’w wneud. Roedd gweithgareddau yn brin iawn, er i ni glywed bod rhai wrthi’n cael eu cynllunio.

Er bod y sefyllfa yn gwbl dorcalonnus ar sawl ystyr, ac yn eithriadol o anodd i’r bobl yn y gwersyll, un cysur bach oedd nad oeddent yn destun rhyfel na’r bygythiad o fomio a distryw. Fodd bynnag, yr un pryd, mynegwyd pryderon ynghylch diogelwch personol a lles yn y gwersyll.

*Thessaloniki*: Ein cyrchfan ar fore’r dydd Mercher oedd gwersyll answyddogol EKO, a oedd wedi’i sefydlu mewn gorsaf betrol, rhyw 20 km o Idomeni. Yno, roedd tua 1,000 o bobl yn byw mewn pebyll a oedd wedi’u darparu gan UNCHR.

*Dillad yn sychu yn y gwersyll answyddogol yn yr EKO Station*



Roedd nifer o asiantaethau cymorth yn gweithio yn y gwersyll, ac wrth i ni ymweld â phabell arall, lle roedd y menywod yn paratoi pryd o ddail gwinwydd wedi'u llenwi â reis, daeth dau weithiwr cymorth ar ran elusen adnabyddus heibio gyda phot bach o bwdin reis ac oren i bob un o'r plant yn y teulu hwnnw.

Ar ein ffordd yn ôl i Thessaloniki, arhosom y tu allan i wersyll swyddogol arall, yn y gobaith y gallem siarad â'r ffoaduriaid yno, ond, unwaith eto, gwrthodwyd mynediad i ni. Y tu allan i'r gwersyll roedd grŵp o blant yn chwarae, ac yn y pellter, gallech weld plant yn chwarae ar siglenni. ...

Ysgrifennodd yr Apostol Paul ddau lythyr at yr Eglwys Fore yn Thessaloniki. Bryd hynny, roedd pobl Thessaloniki yn llawn gobaith ar gyfer Ailddyfodiad Crist, ac roeddent yn mynnu glynu'n daer wrth y gred honno. Dwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach, yn yr union ddinas honno, sy'n parhau i fod yn un o brif borthladdoedd Gwlad Groeg, mae yna bobl sy'n llawn gobeithion am loches, sefydlogrwydd a diogelwch, ac yn glynu'n daer wrth eu gobeithion. Gweddïwn y byddant yn cael eu gwireddu, ac y byddwn ni'n gwneud ein rhan i helpu i'w gwireddu.

## Capel y Garn

Dewch ar daith gyda phlant yr Ysgol Sul

Pryd?

9.30am Dydd Sul 17 Gorffennaf 2016

Ble?

Rheilffordd Llyn Tegid

Canolfan Byd Mari Jones

Gwesty'r Eryrod, Llanuwchllyn

Pris? Dim mwy na £25 i oedolion

Plant am ddim

Am ddod? Cysylltwch ag Alan Wynne Jones
Ffon 01970 828163

erbyn Dydd Sul 10 Gorffennaf

Dymunwn bob bendith i'r Athro Gruffydd Aled Williams a gafodd ei ethol yn flaenor yn y Garn yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau calonnog:

i blant yr ysgol Sul a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint;

i'r Athro Gruffydd Aled Williams ar gyrraedd Rhestr Fer Llyfr y Flwyddyn 2016 gyda'i gyfrol *Dyddiau Olaf Owain Glyndŵr.*

## Gorffennaf

*Blaenor y Mis: Marian Beech Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Eddie T. Jenkins / Alan Wynne Jones*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

**3** Dr Gwyn Davies, Aberystwyth am 10 o’r gloch
Oedfa’r bore yn unig

**10** Oedfa Haf yr Ofalaeth dan arweiniad y Bugail
Capel Pen-llwyn am 10 o’r gloch

12 Pwyllgor Eglwys y Garn am 7 o’r gloch

**17** Ymweliad â Byd Mari Jones, Llanycil, ac ardal y Bala
Dim oedfaon yn y Garn

**24** Y Parch. John Roberts am 10 o’r gloch
Oedfa’r bore yn unig

**31** Mr Richard Llwyd Jones

## Awst

*Blaenor y Mis: Dewi G. Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: D. Elystan Morgan / Vernon Jones*

**7** Cydaddoli yng Nghapel Noddfa am 10 o’r gloch

**14** Mr Lyndon Lloyd
Cydaddoli yn y Garn am 10 o’r gloch

**21** Cydaddoli yng Nghapel Noddfa am 10 o’r gloch

**28** Miss Beti Griffiths
Cydaddoli yn y Garn am 10 o’r gloch

DS Ni fydd oedfa am 5 o’r gloch yn y Garn yn ystod mis Awst

## Medi

*Blaenor y Mis: D. Elystan Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G. Hughes / Marian Beech Hughes*

| | |
|---|---|
| **4** | Y Parchedig Eric Greene<br>Noddfa'n cydaddoli yn y Garn |
| 8 | Cyfarfod Blynyddol CIC<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 9 | Pwyllgor Swyddogion y Garn am 2 o'r gloch |
| **11** | Oedfa'r bore dan ofal yr aelodau<br>Oedfa dan arweiniad y Bugail am 5 o'r gloch |
| 16 | Swper Cynhaeaf<br>Bethlehem, Llandre, am 6 o'r gloch |
| **18** | Bugail<br>Oedfa gymun yn y bore |
| **25** | Sul Menter Gobaith |
| 26 | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth am 7 o'r gloch |

**Rhestr Flodau'r Garn**

| **Gorffennaf** | **Awst** | **Medi** |
|---|---|---|
| 3 Pantyperan | 4 (Noddfa) | 4 |
| 10 (Pen-llwyn) | 11 Gaerwen | 11 Marian B. Hughes |
| 17 (Ymweliad â'r Bala) | 18 (Noddfa) | 18 |
| 24 Gwenda James | 25 | 25 (Sul Menter Gobaith) |

Os hoffech chi roi blodau ar un o'r Suliau gwag neu'n ddiweddarach yn y flwyddyn, cysylltwch â Shân Hayward neu Kathleen Lewis, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd. Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

## Capel Seion

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu eglwysi Aberystwyth a'r cylch yn Seion, Stryd y Popty, ddydd Sul, 8 Mai. Yn oedfa'r bore plant y gwahanol ysgolion Sul oedd yn ledio'r emynau. Tro Seion oedd cyhoeddi'r emyn 'Hedd sy'n llifo megis afon' a gwnaethpwyd hyn yn raenus iawn gan Swyn, Eos a Celt Dafydd yn cynrychioli Ysgol Sul Seion. Diolch yn fawr iddynt am eu parodrwydd i helpu bob amser.

Ddechrau'r mis, roedd rhaglen Radio Cymru, *Manylu*, gyda Garry Owen yn trafod effeithiau'r sychdwr enbyd yn Lesotho – gwlad sydd wedi'i gefeillio â Chymru – ac yn pwysleisio'r dioddefaint a'r tlodi sy'n dilyn o hynny, a'r galw am gymorth dyngarol brys. Ymwelodd Garry Owen â'r wlad ei hun. Ymhlith y cyfranwyr i'r rhaglen clywyd llais Catrin Hughes, Dol-gwybedyn, Llanafan, wyres i Mrs Ann Jones, Wernheli. Gweithio yno fel athrawes mae Catrin, ac er bod y dosbarthiadau'n fawr yn yr ysgol mae pob disgybl yn awyddus iawn i ddysgu ac ni cheir yno broblem disgyblaeth o gwbl!! Bu Catrin am flynyddoedd yn aelod selog a ffyddlon iawn o Ysgol Sul Seion, a theimlwn yn falch iawn o'i hymroddiad a'i hawydd i wasanethu gyda'r anghenus a'r difreintiedig mor bell o'i chartref. Erbyn hyn cyhaeddodd Catrin adref ac edrychwn ymlaen at rannu ei hanes gyda hi.




*Catrin a'r brifathrawes*

Fore Sul, 29 Mai, cynhaliwyd oedfa deuluol yn Seion. Cymerwyd rhan gan aelodau chwe theulu, sef Valeri Tawy, Ann Jones, Val Davies, Roland Williams, John Gwynn Jones ac Ina Tudno. Defnyddiwyd cyhoeddiad diweddar y Feibl Gymdeithas yn sail i'r addoliad, sef *Agor y Gair gyda Mari.* Yn y llyfryn darperir darlleniad, myfyrdod a gweddi'n ddyddiol ar gyfer 26 diwrnod yn cynrychioli 26 milltir o daith Mari Jones. Yn yr oedfa defnyddiwyd y pedwar darlleniad cyntaf yn unig, sef yr adran 'Paratoi i Gychwyn'.

Bore Sul, 15 Mai, ar ddechrau wythnos Cymorth Cristnogol, cynhaliwyd oedfa arbennig yn y Garn, dan arweiniad ein Gweinidog.

Yn y gwasanaeth eleni, rhoddwyd sylw penodol i rai o drigolion Bangladesh, fel Morsheda a'i theulu, sy'n byw mewn ofn oherwydd y perygl o golli ei chartref oherwydd llifogydd. Mae ei chartref ar ynys sy'n cael ei chreu gan laid a gwaddod yng nghanol un o afonydd mawr Bangladesh.

Yn ei sgwrs â'r plant, soniodd y Gweinidog am waith 'Mwydod Rhyfeddol', pethau syml sy'n gallu creu compost i helpu teuluoedd tlawd Bangladesh i dyfu eu bwyd eu hunain.

Yn y gwasanaeth, defnyddiwyd y sgriniau sydd wedi'u gosod yn y capel yn ddiweddar am y tro cyntaf i ddangos ffilmiau a lluniau.

Yn dilyn y gwasanaeth, cafwyd Cinio Bara a Chaws yn y festri, wedi'i baratoi gan y Chwiorydd. Casglwyd cyfanswm o £400 tuag at Gymorth Cristnogol – diolch i bawb am eu haelioni.





Mwynhau sgwrs yn ystod y Cinio Bara a Chaws yn y festri – diolch i Shân, Llinos, Nans, Meinir a Liz am y gwaith paratoi



## *Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth*



Cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu Gŵyl Ddewi brynhawn Mawrth, 8 Mawrth, yn festri capel Rehoboth, Taliesin, ac estynnwyd croeso i Marianne Jones Powell, Llandre, a fu'n ein diddanu drwy ganu rhai caneuon clasurol yn ogystal ag alawon Cymreig i gyfeiliant Elenid Thomas. Roedd pawb wedi mwynhau'r datganiadau'n fawr iawn, a diolchwyd yn gynnes i'r ddwy am brynhawn hyfryd. Yna mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Ann Jenkins ac Ann Jones.

Prynhawn Mawrth, 12 Ebrill, a hithau'n brynhawn hyfryd o wanwyn, aeth yr aelodau i ymweld â Phlasty Nanteos. Cawsom ein tywys o amgylch rhai o'r ystafelloedd moethus gan Anna, ac roedd yn ddiddorol clywed am hanes cynnar y plasty a'r teuluoedd a fu'n byw yno. Ar un adeg, bu'n gartref i Gwpan Nanteos, a'r honiad oedd mai hwn oedd y Greal Sanctaidd a gludwyd yn wreiddiol i Glastonbury ac yna i Ystrad-fflur, lle cafodd ei ddefnyddio fel cwpan iacháu, ond copi o'r cwpan sydd yn Nanteos erbyn hyn. Ar ôl rhyw awr, cawsom ein tywys i'r ystafell fwyta i fwynhau te hufen.

*Carys Briddon*

## *Grŵp Help Llaw y Garn*



Mae'r Grŵp Help Llaw wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd ar bnawn Mercher (ac eithrio'r cyntaf yn y mis) i gymdeithasu a chyfrannu mewn amrywiol ffyrdd at waith elusennol.

Yn ddiweddar, canolbwyntiwyd ar dri phrosiect, sef Water Aid, Tenovus a gweu myffiau (twiddle muffs).



Trosglwyddwyd y myffiau y bu'r merched yn eu gweu i Ward Enlli yn Ysbyty Bronglais, a derbyniwyd llythyr yn mynegi eu gwerthfawrogiad ohonynt. Dywedwyd bod rhai o'r cleifion eisoes 'yn cael boddhad ohonynt wrth i'r *twiddle muffs* leddfu pryder a gofid'.

Gwnaed cyfraniad o £125 hefyd tuag at Tenovus, sy'n darparu gofal cancr i gleifion a'u teuluoedd yn y gymuned.

Parhawyd i gefnogi'r elusen Water Aid, sy'n cyflawni gwaith hanfodol yn ceisio sicrhau cyflenwad o ddŵr glân i gymunedau tlawd. Anfonwyd cyfraniad pellach o £100 (yn ychwanegol at y £500 a gasglwyd eisoes) i'r elusen hon, sef newid mân a gasglwyd mewn potel yn y festri.

Diolch am bob cyfraniad.

Shân Bethan

828268 611502

## *Capel y Garn – Pwyllgor yr Eglwys*

Daeth deg o aelodau'r pwyllgor ynghyd yn Festri'r Garn nos Fawrth, Mai 17. Yn absenoldeb y Gweinidog cadeiriwyd gan Vernon Jones, ac ef hefyd a arweiniodd y defosiwn agoriadol.

Braf oedd clywed bod y gwaith ar yr adeiladau bellach yn dod i ben yn foddhaol, a bod y sgriniau mawr yn eu lle yn y capel. Yr angen yn awr yw sicrhau bod aelodau yn gwybod sut i'w defnyddio. I'r perwyl hwn bwriedir cynnal sesiynau hyfforddi yn yr hydref.

Testun balchder oedd clywed bod £400 wedi eu casglu at Gymorth Cristnogol yn ystod y gwasanaeth ar y Sul penodedig a'r cinio bara a chaws a ddilynodd. Mynegwyd diolch i'r sawl fu'n gyfrifol am y trefniadau.

Yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf, ym mis Mawrth, roedd sôn am drefnu Pererindod Haf, ond gan fod yr Ysgol Sul Unedig yn trefnu ymweliad â Chanolfan Mari Jones yn y Bala ar Orfffennaf 17, roedd pawb yn unfryd mai cefnogi hwnnw fyddai orau.

Dyma'r adeg o'r flwyddyn pan mae'r gwahanol gymdeithasau yn mynd ati i lunio eu rhaglen ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ac i agor gweithgareddau'r hydref a'r gaeaf penderfynwyd cynnal Swper Cynhaeaf ym Methlehem ar Fedi 16.

Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor ar Orffennaf 12, yn y Festri am 7.00.

**Sylwch:** Dim ond crynodeb o'r Cofnodion sydd yma. Mae'r Cofnodion llawn yn cael eu hanfon i bawb sydd yn, neu sydd wedi, mynychu'r cyfarfodydd. Os hoffech chi dderbyn copi o'r Cofnodion llawn, byddwch cystal â chysylltu â Mrs Llinos Dafis.

## *Adran Genhadol y Chwiorydd*

## Chwiorydd Gogledd Ceredigion

Ar brynhawn Sadwrn braf iawn, 16 Ebrill, daeth cynrychiolaeth gref o eglwysi ar draws Gogledd Ceredigion i gapel Bronant ar gyfer ein cyfarfod blynyddol. Llywyddwyd yr oedfa gan Eirlys Morgan ac roedd y defosiwn yng ngofal chwiorydd Bronant a Rhydlwyd. Y Parchedig Carwyn Arthur a'i wraig, Alicia, oedd yn annerch.



*Eirlys Morgan (llywydd), Alicia a Carwyn Arthur*

Trwy gyfrwng lluniau ac aml stori cawsom ein tywys i Batagonia, gwlad enedigol Alicia a lle cyfarfu'r ddau. Gwelsom olygfeydd amrywiol o' r Wladfa, y capeli a'r cynulleidfaeodd, athrawon ysgol Sul ac arweinwyr ieuenctid, y siop lyfrau Gristnogol a gychwynnwyd gan Mair Davies a'i dylanwad yn para hyd heddiw. Gofynnwyd i ni gofio am eglwysi'r Wladfa a'u cenhadaeth yn ein gweddïau.

Croesawyd pawb at y byrddau i fwynhau'r te ac i gymdeithasu gan atgoffa'n gilydd yn arbennig am y Sasiwn a oedd i'w chynnal ym mis Mai yng Nghydweli.

## Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De

Cynhaliwyd Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De yng Nghapel y Morfa, Cydweli, ddydd Iau, 19 Mai. Daeth cynulleidfa dda ynghyd a phrofwyd croeso arbennig gan chwiorydd Dosbarth yr Arfordir, Henaduriaeth Myrddin. Gwerthfawrogwyd y te ardderchog a baratowyd ganddynt i bawb yn y festri a chyfle i gymdeithasu wrth y byrddau rhwng y ddau gyfarfod.

Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Elizabeth Jackson, llywydd y pwyllgor, ac aelodau lleol arweiniodd y defosiwn. Elinor Nicholson oedd arweinydd y gân a'r organydd yn y ddau gyfarfod oedd Nansi Richards. Cafwyd pytiau diddorol am hanes yr emynau a'r tonau gan Elinor. Y siaradwr gwadd yng nghyfarfod y prynhawn oedd y Barchedig Gwenda Richards a oedd newydd ddychwelyd ychydig ddyddiau ynghynt o ardal Bryniau Casia yn yr India gyda'i phriod, y Parchedig Elwyn Richards, lle y buont yn cynrychioli Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghymanfa Gyffredinol yr India.

Trwy gyfrwng lluniau ar y sgrin cafwyd cipolwg ar hanes sefydlu'r Eglwys yn yr India gan Thomas Jones, llun cofgolofn a oedd yn cynnwys enwau'r holl genhadon o Gymru a wasanaethodd yn y rhan hon o'r byd. Ymwelodd Elwyn a Gwenda hefyd ag Ysbyty H. Gordon Roberts yn Shillong, canolfannau meddygol a chartrefi i blant amddifad. Gwelwyd bod yr adnoddau'n brin a'r angen yn fawr. Gyda'r can mil o bunnoedd a godwyd o ganlyniad i Apêl y Llywydd y llynedd, gobeithia Dr David Tariang weld adeiladu estyniad newydd i'r ysbyty erbyn y flwyddyn 2020.

Llywyddwyd cyfarfod yr hwyr gan Ina Tudno Williams, Llywydd Pwyllgor Sasiwn Genhadol y De, a chafwyd cyfarchiad gan y Parchedig Glyn Tudwal Jones, Llywydd Sasiwn y De. Gwaith Bugeiliaid y Stryd yn Abertawe oedd testun anerchiad y Barchedig Jill-Hailey Harries. Mae Jill ei hun yn perthyn i fugeiliaid y stryd sydd yn fudiad rhyngwladol. Eglurodd cymaint o ymrwymiad sydd ei angen wrth ymuno â thîm y bugeiliaid. Nid mynd i feirniadu ac i farnu mae'r bugeiliaid ond rhoi clust i wrando, ymateb gyda geiriau o gysur neu gyngor ac estyn cymorth ymarferol – gwasanaethu yn ostyngedig gan roi'r ffydd ar waith ar y stryd y tu allan i furiau'r eglwys.



*Y Barchedig Jill-Hayley Harries gyda'r rhai a gymerodd ran yng nghyfarfod yr hwyr ac aelodau'r pwyllgor*


Yn ystod y ddau gyfarfod cafwyd gwybodaeth am y thema eleni a'r prosiectau gan Sarah Morris, a chyflwynwyd siec am £8,400 gan y Trysorydd, Menna Moras, i Nan-Wyn Powell Davies ar ran chwiorydd y De. Wrth ddiolch yn gynnes iawn i adran y chwiorydd, eglurodd Nan sut y bu i'r cyfanswm o £37,000 a gasglwyd y llynedd gael ei ddosbarthu yma yng Nghymru a thramor.


Edrychwn ymlaen yn awr at Sasiwn y flwyddyn nesaf yn Soar, Pontardawe, ac estynnwyd gwahoddiad cynnes i bawb ar ran dosbarth Tawe a Nedd gan Mrs Irene de Lloyd. Wrth ymadael â Chapel y Morfa, Cydweli, ar ddiwedd y dydd heriwyd ni i ddathlu mewn ysbryd o lawenydd a diolchgarwch, i ddangos gofal am ein gilydd ac i *ddisgleirio fel goleuadau yn y byd.*

*Ina Tudno*

*Dehongli Meddwl Paul* – cyfres o fyfyrdodau gan Elfed ap Nefydd Roberts, yn seiliedig ar fywyd a dysgeidiaeth Paul.

Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair; pris £8.99




Cyfrol gan Beti-Wyn James, Caerfyrddin, yn cynnwys ugain o fyfyrdodau sy'n addas ar gyfer gwasanaeth y cymun.

Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair: pris £4.99

***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Alan Wynne Jones, y Garn
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; johnleeding@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **11 Medi**:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
☽01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
☽01970 828662
marian_hughes@btinternet.com